



Helpu Cymru i leihau
ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce
its Carbon Footprint



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gwella eich cartref Canllaw Newid Hinsawdd



Gwella eich Cartref **Canllaw** **Newid Hinsawdd**

ISBN 978 0 7504 4960 1
© Hawlfraint y Goron 2008
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Gorffennaf 2008
D3360809
CMK 22-12-125

Gellir cael rhagor o gopïau o'r llyfryn hwn o:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: **029 2082 3683** (Llun – Gwener)
Ffacs: **029 2088 5239**
E-bost: **assembly-publications@wales.gsi.gov.uk**

Os oes gennych gyfleusterau rhyngryw, gallwch weld
y ddogfen hon yn **www.cymru.gov.uk**

Mae copïau print bras o'r
canllaw hwn ar gael hefyd o'r
Ganolfan Gyhoeddiadau
Ffôn: 029 2082 3683

Testun gan www.cagconsultants.co.uk
Dylunio gan www.wave.coop

Paratowyd y canllaw hwn gyda chymorth Ymddiriedolaeth Arbed
Ynni Cymru, Comisiwn Dylunio Cymru a Chymdeithas
Llywodraeth Leol Cymru.



Mae newid hinsawdd yn digwydd nawr

Newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sydd yn wynebu'r byd. Mae'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwn trwy ein gweithgareddau beunyddiol yn cyfrannu at newid hinsawdd. Mae tymheredd yn cynhesu a chapantau ia yn dadmer yn dystiolaeth glir bod newid hinsawdd yn digwydd nawr.

Yng Nghymru rydym yn debygol o weld tywydd eithafol a hynny'n amlach. Gall hyn gynnwys dyddiau hynod o boeth, hafau sychach, glaw trwm, stormydd a lefelau'r môr yn codi.

Newid hinsawdd a'i effeithiau arnom ni

Gall y newidiadau hyn yn ein hinsawdd olygu y gall mwy o gartrefi fod mewn perygl o ddioddef llifogydd. Gall fod mwy o ddyddiau lle y mae'n eithriadol o boeth gan wneud ein cartrefi yn hynod o anghyfforddus. Gall fod adegau hefyd pan fo ein cyflenwadau dŵr yn cael eu hystyngtu i'r eithaf.

Gallwch wneud newidiadau i'ch cartref i helpu i'w wneud yn gyfforddus hyd yn oed pan fo'r hinsawdd yn newid. Gallwch hefyd ddiogelu eich cartref rhag effeithiau posibl newid hinsawdd, a fydd yn helpu i leihau eich costau yswiriant.

Bydd lleihau eich ôl troed carbon yn gostwng eich biliau tanwydd

Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy wneud newidiadau i'n ffordd o fyw a lleihau'r CO₂ y mae ein cartrefi yn ei gynhyrchu.

Cewch wybod am eich ôl troed carbon a'r ffyrdd y gallwch ei leihau yn: www.cymru.gov.uk/newidhinsawdd

Os ydych yn lleihau allyriadau CO₂ o'ch cartref byddwch hefyd yn lleihau eich biliau tanwydd. Gyda phrisiau tanwydd yn uwch, ni fu erioed gwell amser i wella effeithlonrwydd ynni eich cartref. Bydd y rhan fwyaf o fesurau i arbed ynni yn talu amdanynt eu hunain o fewn ychydig flynyddoedd.

Mae modd i chi gael adroddiad ynni yn rhad ac am ddim trwy glicio ar y tab ar yr ochr chwith yn:

www.energysavingtrust.org.uk/home_improvements

Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pobl sydd â chynlluniau i wella eu cartrefi. Os ydych yn cael gwaith wedi'i wneud ar eich tŷ, gydag adeiladwyr a sgaffaldiau ar y safle, ychydig iawn sydd angen ei wneud yn ychwanegol i wneud toriadau mawr yn eich allyriadau CO₂, arbedion mawr ar eich biliau tanwydd a diogelu eich cartref rhag newid hinsawdd.

Mae'r canllaw wedi ei rannu yn dair brif adran:

1 Prosiectau

yn disgrifio prosiectau gwelliannau cartref nodweddiadol lle y gallwch wneud gwelliannau i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae gan pob un restr wirio o fesurau penodol y dylech/gallwch eu cyflawni.

2 Mesurau

yn disgrifio mesurau penodol e.e. 'Goleuo' ac yn rhoi'r dewisiadau y gallech eu hystyried gyda syniad o:

Cost (gosod):

isel: dan £100 canolig: £100-£1000 uchel: dros £1000

Sgîl (angen i'w gosod):

DIY syml: dylai unrhyw un allu gosod y mesur hwn

DIY medrus: dylai pobl sydd yn hyderus wrth ddefnyddio offer ac yn meddu ar y sgiliau technegol sylfaenol allu gosod y mesur hwn

Proffesiynol: am resymau diogelwch neu lefel cymhlethdod, dylai contractwr proffesiynol wneud y gwaith

• Effaith ar leihau eich ôl troed carbon ac arbed arian ar eich biliau tanwydd

Bydd gan rai mesurau fwy o effaith nag eraill ar leihau allyriadau a biliau tanwydd.

Edrychwch ar y darlenniadau ar y mesurydd:



effaith uchel

ar dorri CO₂ ac arbed arian ar filiau tanwydd



effaith ganolig

ar dorri CO₂ ac arbed arian ar filiau tanwydd



effaith gymedrol

ar dorri CO₂ ac arbed arian ar filiau tanwydd

Mae'r holl fesurau a restrir yn werth eu hystyried; tra bydd gan rai effaith gymedrol yn unig a dim ond arbed ychydig o arian ar eich biliau tanwydd, y rhain yn aml yw'r rhataf a'r hawsaf i'w gwneud.

Mae rhai mesurau wedi'u hamlygu oherwydd eu bod yn bethau drwg i'w gwneud, byddant yn cynyddu allyriadau CO₂ ac maent yn defnyddio llawer o danwydd. **Dangosir y rhain pan fo'r mesurydd yn pwyntio at y du, fel hyn:**



- **Cyfforddusrwydd a diogelwch mewn hinsawdd sydd yn newid**
Rhestrir rhai mesurau oherwydd y gallant wneud eich cartref yn fwy cyfforddus a diogel mewn hinsawdd sydd yn newid. **Maent wedi eu graddio trwy ddefnyddio'r symbolau canlynol:**



effaith uchel
ar gyfforddusrwydd
neu ddiogelwch



effaith ganolig
ar gyfforddusrwydd
neu ddiogelwch



effaith gymedrol
ar gyfforddusrwydd
neu ddiogelwch

3 Rhagor o wybodaeth a chyllid

yn nodi lle i gael rhagor o wybodaeth fanylach am y mesurau a ddisgrifir yn y canllaw hwn a pha gymorth ariannol sydd ar gael.

Tystysgrifau Perfformiad Ynni – gwerth eich cartref

Os ydych yn gwerthu eich cartref neu eisiau ei rentu, mae'n ofynnol i chi bellach gael Tystysgrif Perfformiad Ynni gan asesydd achrededig. Bydd hyn yn dweud wrth y prynwr neu denantiaid posibl pa mor effeithiol ydy eich tŷ o ran ynni a'i effaith amgylcheddol yn seiliedig ar allyriadau CO₂, gydag adroddiad ar sut y gellir gwella'r ffactorau hyn. Felly po fwyaf a wnewch nawr, gorau yn y byd y bydd eich graddio a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn ngwerth gwerthu neu rentu eich tŷ.

Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu

Gallai fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai o'r prosiectau sydd yn cynnwys addasiadau allanol a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Os oes unrhyw amheuaeth cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol sef eich cyngor lleol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol os ydych yn byw yn un o Barciau Cenedlaethol Cymru. Mae mwy o gyfyngiadau cynllunio ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd cadwraeth, Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol neu ar bobl y mae eu cartrefi yn adeiladau rhestredig.

Bydd ar nifer o'r mesurau angen cymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu. Dylech chi neu eich contractwr adeiladu gysylltu ag adran Rheolaeth Adeiladu eich cyngor lleol am gymeradwyaeth ar gyfer eich gwelliannau arfaethedig.

Gallwch hefyd lawrlwytho 'Cynllunio – canllaw i ddeiliaid tai' trwy fynd i:
www.wales.gov.uk/planning neu gallwch gael copi yn adran gynllunio eich Cyngor Lleol.

Gellir cael gwybodaeth hefyd ar y Porth Cynllunio trwy fynd i:
www.planningportal.gov.uk.

cynnwys

t Prosiectau

- 08 1 Ychwanegu estyniad i'ch cartref
- 10 2 Adeiladu heulfan
- 12 3 Addasu eich llofft
- 13 4 Newid eich system wresogi neu foeler
- 14 5 Adeiladu garej neu sied
- 15 6 Adeiladu tramwyfa neu patio
- 16 7 Ailffitio eich cegin neu ystafell ymolchi
- 18 8 Adnewyddu eich to
- 19 9 Uwchraddio eich ffenestri
- 20 10 Ailrendro eich waliau

t Mesurau

- 22 1 Inswleiddio to
- 23 2 Inswleiddio waliau dwbl
- 24 3 Inswleiddio waliau solet
- 25 4 Inswleiddio lloriau
- 26 5 Stribedi drafft
- 27 6 Ffenestri dwbl a thriphlyg
- 28 7 Inswleiddio pibellau a thanciau

- 29 8 Systemau gwresogi tanwydd confensiynol
- 30 9 Pymphiau gwres ffynhonnell tir a MicroCHP
- 31 10 Cynhesu dŵr trwy ynni'r haul
- 32 11 Cynhesu gyda choed
- 33 12 Rheoliadau tymheredd a gwresogi

- 34 13 Trydan o wynt a haul
- 35 14 Goleuo
- 36 15 Peiriannau

- 37 16 Oeri ac awyru
- 38 17 Draenio, arwynebau a thoeau gwyrdd
- 39 18 Arbed dŵr
- 40 19 Diogelu rhag llifogydd a stormydd
- 42 20 Plannu

- 43 Gwastraff cartref ac adeiladu

- 44 Ffynonellau gwybodaeth bellach
- 45 Cyllido
- 46 Rhestr Eirfa



10

Prosiectau

1 Ychwanegu estyniad i'ch cartref

Mae'n debyg mai adeiladu estyniad i'ch cartref yw'r newid mwyaf yr ydych yn debygol o'i wneud i'ch cartref. Bydd cymryd newid hinsawdd i ystyriaeth yn eich helpu i gadw costau rhedeg yn isel, darparu amgylchedd cyfforddus a diogelu eich estyniad yn erbyn effeithiau newid hinsawdd. Gallai hefyd fod yr amser mwyaf costeffeithiol i wella perfformiad gweddill eich cartref gan y bydd adeiladwyr, plymwyr a thrydanwyr ar y safle, yn ogystal â sgaffaldiau ac offer arbenigol.

Dylech hefyd edrych ar

- Prosiect 4** Newid eich system wresogi neu foeler – oherwydd gallai hwn fod yn amser da i ystyried gwneud hyn hefyd [13](#)
- Prosiect 7** Ailffitio eich cegin neu ystafell ymolchi – os ydych yn mynd i gynnwys ystafell ymolchi ac/neu gegin yn yr estyniad [16](#)
- Prosiect 9** Newid eich ffenestri cyfredol – fel eu bod yn cydweddu â gwydr a fframiau'r ffenestri yn eich estyniad a rhoi'r un perfformiad uchel [19](#)

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Gosodwch yr estyniad fel ei fod yn derbyn cynhesrwydd am ddim gan yr haul trwy gael ffenestri mwy, talach ar unrhyw ochrau sy'n wynebu'r de a llai o ffenestri llai eu maint ar yr ochrau sy'n wynebu'r gogledd.
- ✓ Gofynnwch am lefelau uchel o inswleiddio mewn waliau, lloriau a thoeon. Ewch y tu hwnt i'r isafswm sydd yn ofynnol gan y Rheoliadau Adeiladu cyfredol. Gall hefyd fod yn amser costeffeithiol i uwchraddio lefelau inswleiddio yng ngweddill eich cartref
- ✓ Gydag inswleiddio da byddwch yn lleihau'r angen am wresogi. Mae angen i chi ystyried a oes gan eich system wresogi gyfredol y gallu i gael ei hymestyn.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Ystyriwch sut y byddwch yn cadw ystafelloedd yn oer yn ystod tywydd poeth iawn. Mae'n bwysig gallu cysgodi ac awyru ystafelloedd sydd yn wynebu'r de.
- ✓ Os ydych mewn ardal sydd mewn perygl o gael llifogydd, ystyriwch sut y gallwch ddylunio eich estyniad i leihau difrod llifogydd neu stormydd difrifol.

Rhestr wirio

M1 Inswleiddio to 22

M2 Inswleiddio waliau dwbl 23

M4 Inswleiddio lloriau 25

M6 Ffenestri dwbl a thriphlyg 26

M8
-12 Gwresogi 29

M14 Goleuo 35

M16 Oeri ac awyru 37

M19 Diogelu rhag llifogydd a stormydd 40

Gwastraff cartref ac adeiladu 43



2 Adeiladu heulfan

Gall heulfannau ddarparu gofod ychwanegol ac ardal bleserus gynnes i eistedd ynddi. Byddant bob amser ychydig raddau yn gynhesach na'r tymheredd y tu allan. Ond gallant fod yn hynod o aneffeithiol o ran ynni, yn gorgynhesu yn yr haf ac yn colli gwres yn y gaeaf. Gwnewch yn siŵr bod waliau wedi'u hinswleiddio yn dda a/neu ffenestri a drysau dwbl rhwng yr heulfan a gweddill y tŷ. Mae defnydd gofalus o heulfan e.e. cau'r drysau i weddill y tŷ pan fo'r tywydd yn oer neu yn boeth iawn, yn bwysig iawn hefyd.

Dylech hefyd feddwl am

Prosiect 9 Uwchraddio eich ffenestri cyfredol – ar yr un pryd i wella eu heffeithlonrwydd [19](#)

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Ystyriwch safle'ch heulfan; bydd heulfannau sydd yn wynebu'r de yn tueddu i orgynhesu ac efallai y bydd angen eu cysgodi a'u hawyru yn ychwanegol; bydd y rhai'n wynebu'r dwyrain a'r gorllewin yn cael y gwres mwyaf yn y boreau /gyda'r nosau; y rhai'n wynebu'r gogledd fydd yn cael y lleiaf o wres.
- ✓ Inswleiddiwch y waliau, ffenestri a drysau i safon uchel fel y byddech yn ei wneud i'ch tŷ er mwyn cael tymheredd cyfforddus am y rhan fwyaf o'r amser yn ystod y dydd a thrwy'r flwyddyn.
- ✓ Derbyniwch y bydd heulfan yn gyfforddus i'w defnyddio yn bennaf yn y gwanwyn, haf a hydref ond nid mewn tywydd oer.
- ✓ Peidiwch â gosod system wresogi barhaol neu dros dro yn eich heulfan gan y gall hyn wastraffu llawer o danwydd gan gynyddu eich bil gwresogi yn sylweddol.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Gwnewch yn siŵr bod gan eich heulfan fentiau agor lefel isel ac uchel a bleindiau er mwyn ei gadw'n oer yn yr haf.
- ✓ Ystyriwch ddefnyddio gofod 'heulfan' i ddarparu ynni haul goddefol i'ch tŷ gan helpu i'w wresogi yn y gaeaf a'i oeri yn yr haf. Mae hyn yn golygu cael awyru wedi'i reoli gan wres i weddill y tŷ ac i'r tu allan.

Rhestr wirio

- M2 Inswleiddio waliau dwbl 23
- M4 Inswleiddio llawr 25
- M6 Ffenestri dwbl a thriphlyg 27

- M16 Oeri ac awyru 37
- M20 Plannu 42
- Gwastraff tŷ ac adeiladu 43



3 Addasu eich llofft

Mae adeiladu ystafelloedd ychwanegol yn eich llofft yn ddull effeithiol o gynyddu maint eich cartref heb o anghenraid gynyddu eich galw ar ynni neu allyriadau CO₂. Gall newid eich llofft olygu gosod sgaffaldiau, ac mae hynny'n gyfle da i ystyried mesurau eraill ar y to.

Dylech hefyd edrych ar

- Prosiect 4** Newid eich system wresogi neu foeler – gan y gallai hwn fod yn amser da i ystyried gwneud hyn hefyd [13](#)
- Prosiect 9** Newid eich ffenestri cyfredol – fel eu bod yn cydweddu gyda gwydr a fframiau'r ffenestri yn eich llofft newydd a rhoi'r un perfformiad uchel [19](#)

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Gwella lefelau inswleiddio to.
- ✓ Defnyddio'r gwydrau diweddaraf mewn ffenestri a ffenestri yn y to.
- ✓ Ystyried gosod systemau ynni'r haul fel cynhesu dŵr gydag ynni'r haul neu baneli ffotofoltaig ar gyfer cynhyrchu trydan.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Ystyriwch sut y byddwch yn cadw ystafelloedd yn y to yn oer mewn tywydd poeth iawn.
- ✓ Os ydych yn byw mewn lle agored iawn, gofynnwch am gyngor ynglŷn â'r deunyddiau mwyaf cryf ar gyfer eich to newydd.
- ✓ Ystyriwch a oes angen cynyddu gallu'r gwteri i ddelio gyda glaw trwm.
- ✓ Os oes to fflat neu do goleddf isel ar eich llofft newydd, ystyriwch gael to 'gwyrdd' neu do gyda phlanhigion arno.

Rhestr wirio

- | | | | |
|--------------|---|------------|---|
| M1 | Inswleiddio to 22 | M13 | Trydan o wynt a haul 34 |
| M6 | Ffenestri dwbl a thriphlyg 27 | M14 | Goleuo 35 |
| M8-12 | Gwresogi 29 | M16 | Oeri ac awyru 37 |
| | | M17 | Draeniad, arwynebau a thoeau gwyrdd 38 |
| | | | Gwastraff cartref ac adeiladu 43 |

4 Newid eich system wresogi neu foeler

Fel rheol mae pedair elfen i'ch system wresogi: y boeler (neu offer cyffelyb) sydd yn darparu gwres, silindr storio dŵr poeth, y system sydd yn cludo gwres o gwmpas eich cartref (e.e. pibellau a rheiddiaduron) a rheolaethau sydd yn sicrhau bod eich cartref yn cael ei gadw ar dymheredd cyfforddus pan fyddwch yn ei ddefnyddio. Fel rheol mae angen cael boeler gwresogi nwy neu olew newydd ar ôl tua 15 mlynedd ond dylai rhannau eraill o'r system bara'n llawer hirach. Mae ystod o dechnolegau carbon isel newydd ar gyfer gwresogi eich cartref a darparu dŵr poeth bellach ar gael.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal gyda chyflenwad nwy, dylech ddewis boeler cyddwyso nwy. Mae Micro CHP (Gwres a Phŵer Cyfunedig) yn ddewis carbon isel newydd, yn cael ei danio gyda nwy, ar gael erbyn hyn.
- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal heb gyflenwad nwy, neu os ydych eisiau lleihau eich dibyniaeth ar danwydd ffosil, ystyriwch un o'r technolegau carbon isel newydd ar gyfer gwresogi eich cartref a dŵr, fel pypmiau gwres ffynhonnell tir neu boeler llosgi coed.
- ✓ Pa fath bynnag o foeler sydd gennych, mae rheolaethau tymheredd a gwresogi da yn hanfodol.
- ✓ Ystyriwch wresogi dŵr trwy ynni'r haul ar gyfer darparu rhan o'ch gofynion dŵr poeth.
- ✓ Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud y mesurau syml, cost isel fel inswleiddio eich pibellau dŵr poeth a silindr dŵr poeth (os oes gennych un).

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus ac yn ddiogel

- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal sydd mewn perygl o gael llifogydd, ystyriwch osod eich boeler, trydan, pypmiau a rheoliadau cysylltiedig uwchben unrhyw lefel llifogydd posibl.

Rhestr wirio

M7 Inswleiddio pibellau a silindr 28

M8 Systemau gwresogi tanwydd confensiynol 29

M9 Pypmiau gwres ffynhonnell tir a Micro CHP 30

M10 Gwresogi trwy ynni'r haul 31

M11 Gwresogi gyda choed 32

M12 Rheoliadau tymheredd a gwresogi 33

M19 Diogelu rhag llifogydd a stormydd 40

Gwastraff cartref ac adeiladu 43

5 Adeiladu garej neu sied

Efallai mai ychydig o effaith y dylai garej neu sied ei chael ar eich allyriadau CO₂ ond gall eich galluogi i gasglu dŵr glaw. Gallai garej neu adeilad bychan wedi'i adeiladu at eich tŷ hefyd gysgodi'r wal sy'n cael ei rhannu ac felly lleihau'r gwres sydd yn cael ei golli o'ch tŷ.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Gosod goleuadau a switsys effeithiol sydd yn diffodd y goleuadau yn awtomatig pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- ✓ Os ydych yn bwriadu gwresogi'r garej neu'r sied, inswleiddiwch nhw yn dda.
- ✓ Os nad oes to yn wynebu'r de ar eich cartref, gellir defnyddio to garej neu sied weithiau i osod paneli gwresogi dŵr trwy ynni'r haul neu baneli ffotofoltaig.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus ac yn ddiogel

- ✓ Casglwch y dŵr glaw sydd yn syrthio ar y to trwy ddefnyddio casgen ddŵr.
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod unrhyw dramwyfeydd neu lwybrau sydd yn arwain at y garej neu'r sied yn defnyddio deunyddiau hydraid fel bod dŵr glaw yn gallu draenio i'r ddaear.
- ✓ Os oes to fflat ar eich garej neu sied ystyriwch ddefnyddio to 'gwyrdd' neu blannu planhigion arno
- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal sydd mewn perygl o gael llifogydd, ystyriwch roi unrhyw waith weirio, pwyntiau trydan a gosodiadau uwchben unrhyw lefel llifogydd posibl.

Rhestr wirio

M10 Gwresogi gydag ynni'r haul 31

M13 Trydan o wynt a haul 34

M14 Goleuo 35

M17 Draeniad, arwynebau a thoeau gwyrdd 38

M18 Arbed dŵr 39

M19 Diogelu yn erbyn llifogydd a stormydd 40

Gwastraff cartref ac adeiladu 43

6 Adeiladu tramwyfa neu batio

Os ydych yn berchen ar gar ac arnoch angen lle parcio oddi ar y ffordd, defnyddiwch ddeunyddiau hydraiddd fel bod dŵr glaw yn draenio yn araf trwyddynt i'r tir yn hytrach na rhedeg oddi arnynt yn gyflym i ddraeniau a chynyddu'r perygl o lifogydd. Gall defnyddio deunyddiau gwahanol ac osgoi concriid neu darmac ar eich patio hefyd helpu i gadw gerddi yn oer yn yr haf.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar eich biliau tanwydd

- ✓ Peidiwch â defnyddio gwresogydd patio, sydd yn gallu cynhyrchu hyd at 4 tonnelli o CO₂ y flwyddyn, yr un fath â char mawr.
- ✓ Gosodwch oleuadau ynni effeithiol fel goleuadau sy'n gweithio trwy ynni'r haul, sy'n ymateb i symudiadau, pan fo angen goleuo tramwyfeydd a phatios.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Ystyriwch ddefnyddio planhigion ar dramwyfeydd. Gallant fod yn fwy deniadol ac maent hefyd yn cael gwared ar lygredd o'r aer ac yn amsugno dŵr glaw Mae cynnyrch plastig latis yn sefydlogi ardaloedd gyda glaswellt ac yn atal tramwyfeydd gwyrdd rhag mynd yn gywasgedig a mwdlyd.
- ✓ Ystyriwch ddefnyddio wyneb hydraiddd arall fel graean a cherig mân.
- ✓ Defnyddiwch goed FSC (Cynllun Stiwardiaeth Coedwigoedd) ar gyfer gosod llawr pren ar batios ac ar gyfer dodrefn gardd – mae coed sydd â thystysgrif y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yn cael ei reoli mewn modd sydd yn diogelu'r amgylchedd a bywydau pobl sydd yn dibynnu ar goedwigoedd.

Rhestr wirio

M13 Trydan o wynt a haul 34
M14 Goleuo 35

M17 Draenio, arwynebau a thoeau gwyrdd 38

M20 Plannu 42

Gwastraff cartref ac adeiladu 43

7 Ailfffitio eich cegin neu eich ystafell ymolchi

Y rhain ydy'r ddwy ystafell yn eich cartref lle mae llawer iawn o ynni a dŵr yn cael ei ddefnyddio. Wrth eu hailfffitio mae cyfle i leihau eich allyriadau carbon yn sylweddol a chadw adnoddau dŵr; gallai'r ddau beth ostwng eich biliau ynni a dŵr. Mae rhai o'r peiriannau mwyaf drud, sydd yn defnyddio llawer o ynni yn eich cegin a dyma'r man y mae mwyaf o wastraff yn cael ei gynhyrchu. Mae ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn amgylcheddau gwlyb lle y gallwch fod yn cael problemau cyddwyso a llwydni. Gall cyfuniad o wella inswleiddio, gwresogi ac awyru ddelio yn effeithiol â phroblemau o'r fath.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Uwchraddio lefelau inswleiddio yn y waliau a'r lloriau (os ydy'r gegin neu'r ystafell ymolchi ar y llawr daear) a'r to os mai un llawr sydd i'r tŷ.
- ✓ Dewiswch ffwrn, oergell, rhewgell, peiriant golchi llestri a pheiriant golchi sydd yn ynni effeithiol – edrychwch ar y labeli ynni i arwain eich dewis.
- ✓ Cynghorir cael rhyw ffurf o awyru mecanyddol mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi sy'n cael eu tanio gan lefelau uchel o leithder.
- ✓ Darparwch ofod ar gyfer didoli a storio eich gwastraff ac ar gyfer biniau ailgylchu/compostio wrth ddylunio cynllun eich cegin.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Dewiswch dapiau, pennau cawodydd, offer a thoiledau tynnu dŵr deuol sydd yn ddŵr effeithiol.
- ✓ Gosodwch gawod yn eich ystafell ymolchi fel dewis mwy effeithiol o ran ynni a dŵr na baddon, ond peidiwch â dewis cawodydd sydd yn defnyddio llawer o ynni.
- ✓ Ystyriwch osod falfiau annychwel ar ddraeniau prif gyflenwad a mesurau eraill i atal dŵr llifogydd rhag dod i'ch cartref.
- ✓ Ar gyfer ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar y llawr daear, os ydych yn byw mewn ardal lle mae perygl o lifogydd, dewiswch gypyrddau dur gloyw neu blastig yn hytrach nag asglodfwrdd neu bren.
- ✓ Ystyriwch ddeunyddiau llawr ceramig neu finyl a chodi pob offer a gwasanaethau trydanol uwchben lefelau llifogydd posibl.

Rhestr wirio

- | | | | |
|----|-----------------------------|-----|--------------------------------------|
| M1 | Inswleiddio to 22 | M14 | Goleuo 35 |
| M3 | Inswleiddio waliau solet 24 | M15 | Peiriannau 36 |
| M4 | Inswleiddio llawr 25 | M16 | Oeri ac awyru 37 |
| M5 | Stribedi drafft 26 | M18 | Arbed dŵr 39 |
| | | M19 | Diogelu rhag llifogydd a stormydd 40 |
| | | | Gwastraff cartref ac adeiladu 43 |



8 Gosod to newydd

Mae'r prosiect hwn yn gyfle allweddol i uwchraddio lefelau inswleiddio yn y to. Mae hyn yn arbennig o bwysig i doeau fflat neu 'ystafelloedd yn y to' lle nad oes modd mynd i'r gofod to. Tra bo gennych sgaffaldiau ar gyfer y prosiect hwn cofiwch y gallech ystyried gosod mesurau eraill fel ynni haul.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Uwchraddio lefelau inswleiddio yn y to ac ystyried mynd y tu hwnt i'r lefelau a bennir gan y Rheoliadau Adeiladu cyfredol. (h.y. dyfnder o 300m sydd orau)
- ✓ Ystyriwch osod ynni haul fel cynhesu dŵr trwy ynni'r haul neu baneli neu deilsiau haul PV i gynhyrchu trydan.
- ✓ Ystyriwch osod ffenestri yn y to neu bibellau haul i roi mwy o olau dydd naturiol yn yr ystafelloedd o dan y to

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Os ydych yn newid to fflat neu un gyda gogwydd bas, ystyriwch y posibilrwydd o greu to 'gwyrdd' neu do gyda phlanhigion arno.
- ✓ Gwnewch ddefnydd o'r dŵr glaw sydd yn syrthio ar y to trwy ei gasglu mewn casgen ddŵr neu system ailgylchu dŵr glaw. Gallwch ddefnyddio'r dŵr hwn i ddyfrio'r ardd.
- ✓ Os ydych yn byw mewn lle agored gofynnwch am gyngor ynglŷn â'r siapiau a'r deunyddiau sydd yn gallu gwrthsefyll gwynt ar gyfer eich to newydd.
- ✓ Ystyriwch a oes angen cynyddu gallu gwteri i ddelio gyda glaw trwm.

Rhestr wirio

- M1** Inswleiddio to **22**
- M6** Ffenestri dwbl a thriphlyg **27**
- M10** Cynhesu dŵr gydag ynni'r haul **31**
- M13** Trydan o wynt a haul **34**

- M17** Draeniad, arwynebau a thoeau gwyrdd **38**
- M19** Llifogydd a diogelu rhag stormydd **40**
- M20** Plannu **42**
- Gwastraff cartref ac adeiladu **43****

9 Uwchraddio eich ffenestri

Mae ffenestri yn gadael golau a gwres yr haul i mewn i'ch cartref. Mae ffenestri to yn arbennig o effeithiol o ran rhoi golau dydd yn y tŷ a bydd hyn yn arbed golau trydan. Cofiwch y bydd adegau pan fydd angen i chi atal golau'r haul rhag dod i mewn i'ch cartref er mwyn ei gadw'n oer. Mae gwres yn treiddio'n hawdd trwy ffenestri gwydr sengl felly mae hynny'n rheswm pwysig dros uwchraddio'ch ffenestri. Dylai pob ffenestr newydd fod yn ffenestri dwbl neu thriphlyg. Fframiau pren i ffenestri ydy'r dewis mwyaf amgylcheddol gyfeillgar. Ond os ydy'ch fframiau cyfredol yn dal yn gadarn gall fod yn fwy costeffeithiol i roi gwydr eilaidd a sribedi drafft arnynt yn hytrach na gosod fframiau newydd. Gall hwn fod yn ddewis da i adeiladau rhestredig ac mewn ardaloedd cadwraeth hefyd lle na chewch ganiatâd efallai i newid steil y fframiau.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Ystyriwch a ydy'n bosibl gosod gwydr eilaidd a sribedi drafft ar eich fframiau ffenestri cyfredol.
- ✓ Os na, ystyriwch yr amrywiol ddewisiadau ar gyfer ailosod gyda ffenestri dwbl neu thriphlyg perfformiad uchel.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel

- ✓ Dewiswch fframiau ffenestri gyda fentiau llifo'n araf sydd yn caniatáu i chi awyru eich cartref yn y nos yn ystod tywydd poeth heb amharu ar ddiogelwch eich cartref.
- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd, peidiwch â defnyddio fframiau pren ar gyfer y ffenestri ar gyfer ystafelloedd ar y llawr daear.
- tywydd poeth trwy ddefnyddio caeadau, bleindiau neu gysgodlen.

Rhestr wirio

M5 Sribedi drafft 26

M6 Ffenestri dwbl a thriphlyg 27

M16 Oeri ac awyru 37

Gwastraff cartref ac adeiladu 43

10 Ailrendro eich waliau

Mae sawl math o rendrad ar gyfer waliau, fel y 'pebbledash' neu rendr tywod/sment llyfn, sydd yn aml yn cael ei beintio gyda phaent cerrig. Rhaid ailrendro'r rhain pan fyddant yn cracio er mwyn atal dŵr rhag treiddio trwyddynt. Mae waliau wedi'u rendro yn gyffredin ar dai sydd â waliau solet heb waliau dwbl. Mae cryn wres yn cael ei golli trwy waliau solet heb eu hinswleiddio. Mae'n bosibl lleihau'r colli gwres hwn yn sylweddol trwy ychwanegu inswleiddiad ychwanegol mewn gorffeniadau arbennig. I dai gyda waliau solet dylai hyn fod yn fesur o flaenoriaeth, a fydd yn gostwng eich biliau tanwydd ac allyriadau CO₂ yn sylweddol.

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon ac arbed arian ar filiau tanwydd

- ✓ Os ydych yn byw mewn cartref gyda waliau solet, mae defnyddio inswleiddiad waliau allanol fel dewis arall i rendr confensiynol yn fesur sengl pwysicaf y gallwch ei wneud i leihau eich biliau tanwydd a thorri allyriadau CO₂.
- ✓ Os ydych yn meddwl am gael ffenestri newydd gwnewch hyn cyn ailrendro gan y bydd yr inswleiddiad allanol neu rendr confensiynol yn sefyll allan yn erbyn fframiau'r ffenestri.

Ffyrdd o wneud eich cartref yn gyfforddus a diogel


- ✓ Cofiwch y bydd gwella inswleiddio yn cadw eich cartref yn gynnes yn y gaeaf ond bydd hefyd yn ei gadw'n oer yn yr haf.
- ✓ Bydd dewis paent lliw golau hefyd yn helpu i gadw eich cartref yn oer mewn tywydd poeth.
- ✓ Os ydych yn byw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd, efallai y byddwch eisiau ystyried yr amrediad o fesurau i atal dŵr llifogydd rhag dod i'ch tŷ cyn ailrendro.

Rhestr wirio

- M3 Inswleiddio waliau solet 24
- M6 Ffenestri dwbl a thriphlyg 27

- M16 Oeri ac awyru 37
- M19 Diogelu rhag llifogydd a stormydd 40

- Gwastraff cartref ac adeiladu 43



20

Mesurau

Gwella inswleiddio thermol

1 Inswleiddio to

Gall inswleiddio to leihau costau gwresogi hyd at 20% (neu ragor os nad oes inswleiddio yno eisoes), gydag arbediad CO₂ sylweddol trwy well effeithlonrwydd ynni. Inswleiddio llofft fel rheol yw'r inswleiddio mwyaf costeffeithiol i'w osod, yn enwedig os nad yw eich waliau wedi eu hinswleiddio.



Defnyddio cwiltiau inswleiddio neu ddeunydd llenwad llac,

y dyfnder gorau ar gyfer inswleiddio llofft yw rhwng 250-300mm (heb ddim mantais go iawn dros ddefnyddio mwy na hyn).

Mae cwiltiau inswleiddio yn cael eu gosod rhwng y distiau a throstynt ac felly gallant leihau faint o wres sydd yn mynd trwy'r distiau pren. Mae cwiltiau inswleiddio yn gallu cael eu gwneud o wllan mwynau ond mae dewisiadau mwy amgylcheddol gyfeillgar yn cynnwys gwllan defaid, cywarch, jiwt neu jins denim wedi'u hailgylchu! Mae deunydd llenwad llac wedi'i wneud o bapur newydd wedi'i ailgylchu ar gael ond mae angen iddo gael ei osod yn broffesiynol.

Cost: **Canolig** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**



Galw ar gontractwr to proffesiynol i inswleiddio to fflat,

inswleiddio yn cael ei osod naill ai rhwng dec y to a gorchudd dal dŵr (yn defnyddio polyurethan, polystyren neu wllan mwynau dwysedd uchel) neu ar ben y gorchudd dal dŵr (yn defnyddio polystyren a polyurethan allwthedig). Mae corcwrdd yn ddewis mwy cynaliadwy ac adnewyddol i blastigau ewynnog.

Cost: **Canolig** Sgil: **Person proffesiynol**



Ystyried newid to fflat lle mae'r gorchudd dal dŵr yn dechrau darhod (fel rheol maent yn para 15 – 20 mlynedd yn dibynnu ar y deunyddiau a ddefnyddir) gyda tho â rhagor o inswleiddio.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Inswleiddio distiau'r to, naill ai o'r tu mewn neu o'r tu allan (gelwir hyn yn inswleiddio Byrddau Nenfwd). Gellir crogi distiau'r nenfwd o'r distiau i roi'r dyfnder angenrheidiol ar gyfer inswleiddio.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**

Diogelwch: Dylai gwaith to gael ei wneud gan berson proffesiynol/dylai deunyddiau llenwad llac gael eu gosod gan gontractwr arbenigol Cymdeithas Inswleiddio Genedlaethol yn unig, ewch i: **www.nationalinsulationassociation.org.uk** neu ffoniwch **01525 383313** / Gwnewch yn siŵr bod unrhyw danciau dŵr a phibellau yn yr atig hefyd wedi'u hinswleiddio i atal pibellau rhag rhewi a byrstio.

Gwella inswleiddio thermol

2 Inswleiddio waliau waliau dwbl

Gall cartref sydd wedi'i inswleiddio'n wael golli hyd at 25% o'i wres trwy'r waliau. Gallwch weld a oes waliau dwbl yn eich tŷ oherwydd fel rheol bydd briciau neu gerrig wedi'u gosod ar eu hyd yn y waliau. Gellir llenwi y rhan fwyaf o waliau dwbl gydag inswleiddiad gan leihau'r gwres sy'n cael ei golli yn sylweddol ac o ganlyniad arbed symiau sylweddol i chi ar eich biliau gwresogi, yn ogystal â lleihau faint o CO₂ sy'n cael ei ollwng wrth wresogi eich tŷ. Gallai inswleiddio waliau dwbl olygu y gellir gosod boeler neu system wresogi llai y tro nesaf y bydd angen ei newid. Edrychwch am unrhyw broblemau tamprwydd cyn dechrau ar y gwaith. Argymhellir na ddylid inswleiddio ceudyllau o lai na 50mm a dylech ystyried y dewisiadau yn Mesur 3 Inswleiddio Waliau – waliau solet.



Gosod inswleiddiad mewn waliau dwbl gan ddefnyddio system a gosodwr profedig. Mae gan y Gymdeithas Inswleiddio Genedlaethol gofrestr o systemau a gosodwyr waliau dwbl, ewch i: www.nationalinsulationassociation.org.uk neu ffoniwch **01525 383313**.

Cost: **Canolig** Sgil: **Person proffesiynol**

Diogelwch: Dylai inswleiddio waliau dwbl gael ei wneud gan gontractwr arbenigol sydd yn gallu darparu gwarant Asiantaeth Gwarant Inswleiddio Waliau Dwbl (CIGA) neu warant gwneuthurwr ar gyfer polyurethan wedi'i chwistrellu.



Gwella inswleiddio thermol

3 Inswleiddio waliau waliau solet

Gall cartref sydd wedi'i inswleiddio'n wael golli hyd at 25% o'i wres trwy'r waliau. Mae waliau solet yn colli mwy o wres hyd yn oed na waliau dwbl, yn aml mwy na dwbl wal ddwbl sydd heb ei hinswleiddio. Mae gan y rhan fwyaf o dai cyn 1930au waliau solet gyda briciau neu gerrig wedi'u gosod ar eu hyd. Gellir inswleiddio waliau solet ar du mewn neu ar du allan y wal. Dylai fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer torri biliau tanwydd ac allyriadau CO₂.



Gosod inswleiddiad mewnol ar wal solet gan ddefnyddio gwaith stydiau, bwrdd inswleiddio caled, dulliau leinio sych cyfunedig neu lenni mewnol thermol hyblyg. Mae'r dulliau hyn yn rhatach nag inswleiddiad allanol ac nid oes unrhyw amharu ar du allan y tŷ. Mae inswleiddiad mewnol yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cartrefi sydd yn cael eu cynhesu yn y boreau a'r gyda'r nosau yn unig gan fod arwynebedd waliau yn cynhesu yn gyflym. Ond, mae mwy o amharu ac mae maint yr ystafell yn mynd yn llai. Mae angen ailosod sgertin, fframiau drysau a gosodiadau trydanol ar ôl inswleiddio.

Cost: **Canolig** Sgil: **DIY medrus**



Gosod inswleiddiad wal solet allanol, lle mae'r waliau yn gadarn neu lle y gellir eu gwneud yn gadarn. Gall yr inswleiddio naill ai fod yn system rendr gwlyb neu system cladin sych, sydd yn gallu edrych yn well. Ychydig iawn o amharu sydd yn digwydd gan fod y gwaith yn cael ei wneud y tu allan i'r tŷ ac nid effeithir ar faint ystafelloedd. Ond gall y costau fod yn uchel os nad yw'r gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith trwsio ac mae'r amharu allanol yn sylweddol.


Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**

Diogelwch: Rhaid i inswleiddio allanol gael ei wneud gan berson proffesiynol. Mae gan Sefydliad Insiweliddio Rendr a Cladio (INCA) gofrestr o systemau a gosodwyr profedig, ewch i: www.inca-ltd.org.uk neu ffoniwch **01428 654011**.

Gwella inswleiddio thermol

4 Inswleiddio lloriau

Mae lloriau sydd wedi'u hinswleiddio yn wael yn colli gwres, yn enwedig o gwmpas yr ochrau, y sgyrtin a'r llawr a rhwng yr estyll. Mae hyn yn cynyddu'r biliau gwresogi, yn gwneud lloriau yn anghyfforddus ac yn ddrafftio ac yn cynyddu allyriadau CO₂ o wresogi eich cartref..



Inswleiddio lloriau pren gan ddefnyddio cwiltiau gwlan mwynau neu ddefaid (100mm neu ragor), byrddau inswleiddio caled neu inswleiddiad chwythedig. Mae'r gwaith hwn yn fwy costeffeithiol pan fo'r estyll eisoes yn cael eu codi ar gyfer gwaith arall.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus**



Inswleiddio lloriau solet gan ddefnyddio polystyren, polyutheran, ewyn ffenolig neu gorc gan osod asgellfwrdd neu ddeunydd arall ar ei ben. Anfantais y dull hwn yw y gall godi lefel y llawr.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus**



Isgarped o dan garpedi neu lawr lamedig, er yn llai effeithiol na'r dewisiadau uchod, bydd yn lleihau colli gwres trwy eich llawr a dylid ei ystyried os yw'r dewisiadau eraill yn anymarferol.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**

Diogelwch: Byddwch yn ofalus i beidio â selio neu flocio briciau aer dan y llawr gan y bydd distiau ac esgyll yn pydru heb gylchrediad aer.

Gwella inswleiddio thermol

5 Stribedi drafft

Dyma un o'r dulliau symlaf a rhataf o leihau eich allyriadau CO₂ a'ch biliau tanwydd. Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi, ac yn enwedig eiddo Oes Fictoria hŷn fylchau oherwydd drysau a ffenestri nad ydynt yn ffitio'n iawn ond cofiwch y gall drafftiau ddod trwy fylchau yn yr esgyll, rhwng lloriau a sgyrtn, trwy eich drws i fyny i'r llofft a thrwy eich blwch llythyrau. Mae gan ffenestri dwbl modern mewn fframiau newydd stribedi drafft integral, fel nad oes angen unrhyw waith ychwanegol.



Rhoi stribedi drafft ar ddrysau a ffenestri.

Mae pecynnau ar gael yn y rhan fwyaf o siopau DIY a gellir eu gosod gyda phiniau neu maent yn glynu eu hunain.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**



Llenwi'r bylchau rhwng esgyll pren a sgyrtn gyda sêl neu gosod haen o hardbord o dan y carped neu'r leino.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**



Rhimyn drafftiau blwch llythyrau wedi'i osod ar du mewn eich blwch llythyrau.


Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**

Diogelwch: Peidiwch â gorchuddio briciau aer neu fentiau mewn ystafelloedd gyda stof llosgi coed, tanau nwy na thanau agored gan fod awyru digonol yn hanfodol ar gyfer llosgi da ac ar gyfer atal nwy gwnewynig carbon monocsid rhag ffurfio.

Gwella inswleiddio thermol

6 Ffenestri dwbl a thriphlyg

Bydd gosod ffenestri dwbl neu driphlyg yn lleihau'r gwres sy'n cael ei golli trwy eich ffenestri a bydd gan fframiau newydd rimyn atal drafft integral. Mae'n fesur drud ac efallai y byddwch eisiau ystyried y dewis rhatach (ond llai effeithiol) o wydr eilaidd. Y dewis mwyaf amgylcheddol gyfeillgar ar gyfer fframiau newydd yw pren o ansawdd da. Gall fframiau fod yn alwminiwm neu PVC hefyd. Mae Graddfeydd Ynni Ffenestri Cyngor Graddio Ffenestru Prydain (BFRC) yn rhoi graddfeydd o A-G ar gyfer gwahanol fathau o ffenestri – chwiliwch am y labeli hyn a dewiswch ffenestri gyda graddfa o C neu uwch.



Ffenestri triphlyg a ffenestri dwbl wedi'u llenwi â nwy yw'r dewisiadau sydd yn darparu'r lefel fwyaf o inswleiddio. Dylech gofio bod ffenestri triphlyg yn drwm ac felly mae angen i fframiau fod yn gryfach a'r rabedi yn ddyfnach. Mae ffenestri dwbl wedi'u llenwi â nwy yn llai effeithiol ond yn ysgafnach. Mae'r ffenestri dwbl wedi'u llenwi â nwy gorau yn defnyddio nwyon Xenon yn y bwlch rhwng y gwydrau ond nwy Argon sydd fwyaf cyffredin.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Gellir cynnwys **gorchudd E isel** ar ffenestri dwbl a thriphlyg ac mae'n haen ychwanegol a ychwanegir ar y paen mewnol i helpu i adlewyrchu gwres yn ôl i'r ystafell. Felly bydd ffenestri sydd yn cynnwys hwn yn perfformio hyd yn oed yn well ac yn lleihau colli gwres hyd yn oed yn fwy.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Gwydrau eilaidd a stribedi drafft yw'r dewis rhad i ffenestri dwbl newydd ac mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer inswleiddio cadarn. Gallwch gael pecynnau o siopau DIY, ac maent fel rheol yn cynnwys dalennau o blastig clir a rhyw ddull o glymu hwn i du mewn fframiau ffenestri. Mae rhai bachau yn ei gwneud yn hawdd tynnu'r dalennau er mwyn glanhau. Mae systemau drutach sydd yn defnyddio gwydr mewn fframiau metal. Ffurf rad iawn o wydr eilaidd yw ffilm blastig sy'n cael ei gosod gyda sychwr gwallt, ond dydy hwn ddim yn para'n hir.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus**

Diogelwch: Gwnewch yn siŵr bod fentiau mewn ffenestri sydd yn darparu awyru i stof llosgi coed neu danau agored yn cael eu cadw gan eu bod yn hanfodol ar gyfer llosgi da ac atal nwy carbon monocsid gwenwynig rhag ffurfio.

Gwella inswleiddio thermol

7 Inswleiddio pibellau a thanciau

Gall y cam syml o inswleiddio eich pibellau dŵr poeth a'ch silindr dŵr poeth fod yn un o'r mesurau mwyaf costeffeithiol y gallwch ei wneud i ostwng eich bil tanwydd a'ch allyriadau CO₂. Bydd hefyd yn lleihau gorgynhesu yn eich cartref yn yr haf. Mae inswleiddiwr ewyn eisoes ar sylindrau dŵr poeth newydd ond dim ond haenen denau o inswleiddiwr sydd ar nifer o hen rai, neu dim inswleiddiwr o gwbl.



Siaced inswleiddio silindr. Byddai unrhyw silindr gyda llai na 80mm o inswleiddiwr yn elwa o siaced ychwanegol. Mae'r rhain ar gael yn y rhan fwyaf o siopau DIY am ychydig bunnoedd. Gwnewch yn siŵr bod y siaced yn ffitio'n dynn o gwmpas y silindr heb unrhyw fylchau.


Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**



Inswleiddio pibellau. Y pibellau pwysicaf i'w hinswleiddio yw'r rhai sydd yn cludo dŵr poeth o'ch silindr dŵr poeth i'ch tapiau a rhwng eich boeler a'r silindr dŵr poeth. Gallwch brynu inswleiddiwr pibell ewyn mewn siopau DIY.

Cost: **Low** Sgil: **DIY syml**

Diogelwch: Cymrwch ofal wrth weithio ar bibellau poeth – gwisgwch fenyg amddiffynnol.



Gwresogi a dŵr poeth

8 Systemau gwresogi tanwydd confensiynol

Mae'r mwyafrif o gartrefi Cymru yn cael eu gwresogi gyda nwy naturiol a fydd, os caiff ei ddefnyddio i danio boiler cyddwysedig neu foeler cyfuniad cyddwysedig, yn darparu gwres a dŵr poeth gydag allyriadau carbon cymharol isel. Os ydych eisiau lleihau eich dibyniaeth ar danwydd ffosil neu os ydych yn byw yn rhywle heb gyflenwad nwy a'ch bod ar hyn o bryd yn defnyddio olew, nwy potel neu LPG, mae boileri cyddwysedig ynni effeithiol ar gael ond efallai yr hoffech ystyried technolegau amgen (gweler Mesurau 9 ac 11). Os ydych ar hyn o bryd yn defnyddio tanwydd solet (glo, glo golosg a thanwydd difwg arall) neu wres trydan, fe'ch cynghorir yn gryf i ystyried dewisiadau eraill fydd yn cynnig allyriadau carbon is.



Mae **boeleri cyddwysedig** bellach wedi dod yn foeler safonol gan ostwng biliau gwresogi a thorri CO₂ hyd at un rhan o dair wrth ddisodli hen foeler nad yw'n gyddwysedig. Byddant yn darparu gwres gofod trwy reiddiaduron neu wres dan y lloriau a dŵr poeth sy'n cael ei storio mewn silindr dŵr poeth.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Mae **boeler cyfuniad cyddwysedig** hefyd yn foeler effeithiol iawn sydd yn darparu gwres gofod trwy reiddiaduron neu wres dan y lloriau. Y prif wahaniaeth yw bod dŵr yn cael ei gynhesu ar unwaith ac yn dod yn uniongyrchol i'ch tapiau heb unrhyw silindr dŵr poeth. Mae'r boiler 'combi' yn arbennig o addas ar gyfer tai llai a fflatiau lle mae gofod yn gyfyngedig.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**

Diogelwch: Rhaid i foeleri nwy gael eu gosod gan contractwr CORGI achrededig.

Gwresogi a dŵr poeth

9 Pymphiau gwres ffynhonnell tir a Micro CHP

Mae'r rhain yn dechnolegau newydd sydd ar gael bellach ar gyfer gwresogi gofod a dŵr fel dewisiadau amgen i systemau gwres canolog trydan, nwy, olew a thanwydd solet. Mae'r ddwy dechnoleg yn gweithio gydag allyriadau carbon isel.



Mae **pymphiau gwres ffynhonnell daear** yn defnyddio'r symiau defnyddiol o wres sydd ar gael 2-3 metr yn y ddaear. Defnyddir pwmp trydan i drosglwyddo'r gwres hwn i'w ddefnyddio yn y cartref. Fel rheol mae systemau yn cynhyrchu 3 uned o wres ar gyfer pob uned o drydan a ddefnyddir i yrru'r pwmp. Mae'r gwres yn cael ei dynnu o'r ddaear trwy gyfrwng rhwydwaith o bibellau o dan wyneb y tir neu o dwll turio dwfn. Mae hon yn dechnoleg sydd yn fwy addas i dai heb gyflenwad nwy, gyda gardd fawr ac/neu mewn lleoliad gwledig.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Micro CHP (Gwres a Phŵer Cyfunedig) fel rheol yn cael ei yrru gan nwy ac mae tua maint rhewgell ddomestig fach; mae'r unedau hyn yn darparu gwres gofod a dŵr poeth yn union fel boeler gwres canolog cyffredin. Ond maent hefyd yn cynhyrchu trydan ac mae'n bosibl gwerthu unrhyw drydan sydd dros ben yn ôl i'r grid ac felly lleihau eich biliau trydan. Mae Micro CHP yn fwyaf defnyddiol mewn cartrefi bach wedi'u hinswleiddio'n dda gyda gofynion gwresogi cymedrol. Mae technolegau mwy newydd yn cynnwys CHP Cell Tanwydd sydd yn defnyddio ynni hydrogen.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**

Diogelwch: Mae'n hanfodol cael contractwr cymwysedig ac achrededig i osod y technolegau hyn. Ar gyfer Micro CHP bydd angen contractwr CORGI achrededig.

Gwresogi a dŵr poeth

10 Cynhesu dŵr trwy ynni'r haul

Mae cynhesu dŵr trwy ynni'r haul yn defnyddio'r haul i gynhesu dŵr ar gyfer y cartref. Mae'n dechnoleg adnewyddol a ddefnyddir fel rheol i ategu eich system gwres canolog cyfredol. Bydd casglwr dŵr ynni'r haul yn cynhesu'r dŵr o flaen llaw ac yna bydd boeler confensiynol yn ei ddwyn i'r tymheredd angenrheidiol os oes angen. Mae rhai boeleri gwres canolog, fel boeleri combi, yn anaddas i'w defnyddio ochr yn ochr â chynhesu dŵr trwy ynni'r haul. Gall defnyddio ynni'r haul i gynhesu eich dŵr olygu cael silindr dŵr poeth ychwanegol neu gael un newydd – mae angen gofod ar gyfer hyn. Mae arnoch angen to yn wynebu'r de i osod y casglwr arno. Bydd casglwyr ynni'r haul yn gweithio hyd yn oed pan fydd yn gymylog ond y mwyaf llachar yw'r haul y mwyaf o wres a gesglir. Mae dwy brif ffurf o gasglwyr i ddewis o'u plith:



Casglwyr tiwb wedi'u gwagio yw'r dewis technoleg uchel.

Byddant yn cynhesu ynghynt na chasglwr plat fflat gan wneud gwell defnydd o gyfnodau byr o oleuni neu haul llachar. Cyfres o diwbiau gwag gwydr ydynt sydd yn cynnwys stripiau metel sydd yn casglu'r gwres. Maent yn fwy effeithiol na chasglwyr plat fflat a gallant ddarparu hyd at 60% o'ch gofynion dŵr poeth blyneddol. Maent hefyd yn fwy bregus.

Cost: Uchel Sgil: DIY medrus/person proffesiynol



Mae **casglwyr plat fflat** yn dechnoleg symlach a gellir eu cymharu â rheiddiadur wedi'i beintio'n ddu mewn blwch gwydr wedi'i inswleiddio. Caiff y dŵr yn y rheiddiadur (y casglwr) ei gynhesu gan yr haul a chaiff y gwres ei drosglwyddo i'ch system dŵr poeth. Mae casglwyr plat fflat yn defnyddio deunyddiau gwydr arbenigol a chotiadau amsugno gwres perfformiad uchel ar y casglwyr.

Cost: Uchel Sgil: DIY medrus/person proffesiynol

Diogelwch: Ni ddylech osod y casglwyr heb ddefnyddio sgaffaldiau.

Gwresogi a dŵr poeth

11 Gwresogi gyda choed

Mae coed yn ddewis da mewn ardaloedd gwledig lle nad oes cyflenwad nwy. Mae angen i goed ddod o ffynhonnell gynaliadwy lle mae coed yn cael eu plannu yn lle'r rhai sydd wedi eu torri, er mwyn cael ei ystyried yn danwydd carbon niwtral. Mae dewis rhwng llosgi coed llifo, asglod a phelau. Wrth losgi coed llifo rhaid i chi fwydo'r grât neu'r stof eich hunan. Bellach mae sawl stof a boeler ar gael sydd yn llosgi asglod neu belau ac maent yn eu bwydo yn awtomatig, gan eu gwneud yn llawer tebycach i foeler gwres canolog o lew neu nwy confensiynol. Mae angen i chi fod yn agos at gyflenwr pelau coed i ddefnyddio'r dewis hwn. Mae defnyddio coed yn galw am storfa danwydd sych, dan do o faint digonol i storio'r tanwydd swmpus hwn. Mae dewisiadau ar gyfer llosgi coed yn cynnwys:



Boeleri coed llifo neu belau gyda bwydo a rheolaeth awtomatig, yn caniatáu gweithrediad effeithiol am gyfnodau estynedig. Maent yn darparu gwres canolog a dŵr poeth. Dyma'r dull mwyaf effeithiol o ran ynni o ddefnyddio tanwydd coed.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Boeleri logiau gyda rheolaeth a gweithrediad awtomatig, ond angen eu hail-lenwi bob 12 awr. Maent yn darparu gwres canolog a dŵr poeth. Maent ychydig yn llai effeithiol na boeler pelau.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Stof logiau angen eu bwydo â llaw ac yn eu ffurf fwyaf sylfaenol, yn cynhesu un ystafell yn unig. Mae modeli gyda boeleri cefn sydd yn galluogi'r stof i gynhesu dŵr ac efallai ychydig o reiddiaduron.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**



Gratiau cegin fel arfer angen eu bwydo â llaw gyda choed llifo. Mae ganddynt hobiau a fwrn ar gyfer coginio ac yn aml mae boeler cefn ynddynt ar gyfer cynhesu dŵr a rheiddiaduron.

Cost: **Uchel** Sgil: **Person proffesiynol**



Tanau coed agored, er yn ddeniadol, mae'n ddull aneffeithiol iawn o losgi coed, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwres yn mynd i fyny'r simdde. Nid ydynt yn cael eu hargymell fel dull o dorri allyriadau carbon.

Diogelwch: Mae arwyneb rhai offer tanwydd coed yn boeth iawn a gall hynny olygu eu bod yn anaddas i'w gosod mewn cartrefi gyda phlant ifanc.

Gwresogi a dŵr poeth

12 Rheoliadau tymheredd a gwresogi

Mae'n hanfodol bod rheoliadau tymheredd a gwresogi da ar eich system gwres canolog os ydych eisiau torri eich biliau tanwydd ac allyriadau CO₂. Bydd rheoliadau tymheredd a gwres yn eich galluogi i wresogi eich cartref pan fydd angen gwneud hynny yn unig ac i'w gadw ar dymheredd cyfforddus fel nad yw'n mynd yn rhy boeth. Mae'r rheoliadau a'r thermostatau canlynol yn briodol i'w defnyddio gyda system gwres canolog safonol sydd yn cynnwys boeler gyda rheiddiaduron.



Mae **rhaglenwyr digidol** yn caniatáu i chi osod y cyfnodau pan fo angen gwres a dŵr poeth. Mae rhaglenwyr digidol modern yn caniatáu i chi osod amseroedd ar gyfer wythnos gyfan gyda gosodiadau gwahanol ar gyfer pob diwrnod.

Cost: **Canolig** Sgil: **Person proffesiynol**



Mae **rhaglenwyr rheoli parthau** yn gwneud yr un gwaith â rhaglenwyr safonol ond yn caniatáu i chi osod gwahanol osodiadau ar gyfer parthau gwahanol yn eich cartref. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn tai mawr lle mae gwahanol rannau o'r tŷ yn cael eu defnyddio ar adegau gwahanol.

Cost: **Canolig** Sgil: **Person proffesiynol**



Mae **thermostat ystafell** yn diffodd eich boeler a'ch pwmp gwres pan fo'r ystafell lle mae wedi ei osod yn cyrraedd y tymheredd angenrheidiol. Fel rheol byddai'r thermostat yn yr ystafell fyw neu'r cyntedd. Os oes gennych raglenydd rheoli parthau efallai fod gennych fwy nag un thermostat. Cofiwch y gall gostwng y thermostat o 1°C ostwng eich bil gwresogi hyd at 10%.

Cost: **Canolig** Sgil: **Person proffesiynol**



Gellir gosod **falfiau rheiddiadur thermostataidd (TRVs)** ar reiddiaduron mewn ystafelloedd lle nad oes thermostat ystafell. Byddant yn lleihau llif y dŵr poeth i'r rheiddiadur pan fo wedi cyrraedd y tymheredd angenrheidiol. Mae TRVs yn ddefnyddiol mewn ystafelloedd gwely lle yr ydych eisiau gwahanol dymheredd i'r ystafelloedd byw efallai.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**

Diogelwch: Dylai rhaglenwyr a thermostatau gael eu gosod gan beiriannydd gwresogi cymwys.

Trydan a pheiriannau

13 Trydan o'r haul a'r gwynt

Gellir cynhyrchu trydan trwy ddefnyddio ynni adnewyddol, am ddim ar ffurf golau'r haul a gwynt, ond ni ddylid eu hystyried ond ar ôl i chi wneud popeth a allwch i wella effeithlonrwydd ynni eich cartref. Mae tyrbinau gwynt graddfa fach yn addas ar gyfer lleoliadau gwledig, gwyntog yn unig, yn enwedig lle nad oes prif gyflenwad trydan. I'r rhan fwyaf ohonom sydd yn byw mewn ardaloedd trefol mae defnyddio technoleg ffotofoltaig (PV) i gynhyrchu ein trydan ein hunain yn ddewis llawer gwell. Gyda thechnoleg ynni haul neu wynt mae'n debygol iawn na fydd yr amseroedd pan fydd arnoch angen trydan yn cyd-fynd â'r amseroedd pan fyddwch yn cynhyrchu trydan, felly efallai y bydd angen trydan o'r grid i ychwanegu at eich cyflenwad. Bydd adegau hefyd pan fyddwch yn cynhyrchu gormod o drydan a dylai fod yn bosibl gwerthu hwn yn ôl i'r grid.



Casgliad o baneli PV ar y to. Yn defnyddio'r math mwyaf effeithiol o gelloedd PV (monocrystalin) byddai arnoch angen casgliad o tua 8 metr sgwâr ar do sydd yn wynebu'r de i gynhyrchu un rhan o dair o gyfanswm gofynion trydan tŷ bychan. Byss arnoch angen hefyd gwrthdröydd i drosi'r cerrynt uniongyrchol foltedd isel o'r celloedd PV i'r cerrynt eilaidd folteg prif gyflenwad i'w ddefnyddio yn eich cartref.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY medrus/person profesiynol**



Teiliau to ynni'r haul, sef lle mae celloedd PV wedi'u mowldio i siâp teil to gan eich galluogi i greu casgliad trwy gysylltu nifer fawr o deiliau ynni'r haul at ei gilydd. Byddent yn edrych yn fwy fel to cyffredin ac maent yn ddewis da os ydych yn adnewyddu eich to. Mae angen gwrthdröydd hefyd ac offer rheoli.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY medrus/person profesiynol**



Byddai **tyrbin gwynt bach 2.5Kw** ar safle gwyntog, heb gael ei guddio gan goed ac adeiladau eraill yn cynhyrchu trydan sydd yn cyfateb i ddefnydd cartref cyffredin. Fel gyda PV, mae angen gwrthdröydd ac offer rheoli.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY medrus/person profesiynol**

Diogelwch: Ni ddylech osod offer gwynt na PV ar eich to heb sgaffaldiau. Gellir rhoi tyrbinau yn sownd wrth dŷ ond gall achosi cryndod a difrod potensial pan fo'r gwynt yn gryf iawn. Mae'n well eu gosod ar fast.

Trydan a pheiriannau


14 Goleuo

Er bod yr arbedion a gyflawnir gyda phob bylbydd yn effeithlon yn fach, os byddwch yn newid y rhan fwyaf o'ch hen fylbiau bydd yr arbedion yn crynhoi a phe bai pawb yn gwneud yr un fath mae'r arbedion yn genedlaethol yn fawr iawn. Mae'n un o'r dulliau hawsaf a rhataf i dorri eich allyriadau CO₂. Gwnewch y mwyaf o olau dydd naturiol trwy osod desgiau lle mae digon o olau dydd. Ond pan fydd arnoch angen golau ffug, y prif ddewisiadau yw:



Goleuo LED (deuod yn rhyddhau golau) sef y ffurf newydd o oleuo gan ddefnyddio ynni hynod o isel. LED yw'r dewis goleuo mwyaf drud i'w osod ond cydbwysir hyn gyda'r ffaith nad oes angen i chi newid bylbiau. Mae LEDs yn arbennig o dda am oleuo cyfeiriol sydd yn darparu golau gwyn ar unwaith.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**




Mae **flliworoleuadau strip** yn arbennig o dda ar gyfer ardaloedd gweithio fel ceginau, swyddfa yn y cartref neu'r garej. Mae gosodiadau adlewyrchol y tiwbiau flliworoleuol yn hanfodol i'w heffeithlonrwydd.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**



Mae **bylbiau flliworoleuadau cywasgedig** bellach yn ffurf safonol o oleuo ac maent ar gael mewn ystod eang iawn o feintiau ac allbynnau golau. Ni ellir defnyddio llawer ohonynt gyda switshis pylu ond maent yn ddewis cyffredinol da ar gyfer goleuo ynni isel ac maent yn ffitio i osodiadau golau safonol.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**



Mae **goleuo halogen** yn ddefnyddiol ar gyfer goleuadau sbot a goleuadau cyfeiriol neu lle rydych eisiau defnyddio switsh pylu. Gwelliant bychan yn unig ydynt ar yr hen fylbiau golau twngsten.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY medrus/person proffesiynol**



Cyn bo hir ni fydd **bylbiau twngsten** yn cael eu gwerthu. Y rheswm am hynny yw eu bod yn hynod o aneffeithiol ac yn cynhyrchu llawer o wres diangen yn ogystal â golau. Mae unrhyw un o'r dewisiadau uchod yn well dewis ar gyfer goleuo.

Diogelwch: Mae angen weirio rhai ffurfiau o oleuo (ffliworeoladau strip) yn uniongyrchol i gyflenwad eich cartref a dim ond trydanwr cymwys ddylai wneud gwaith o'r fath.

Trydan a pheiriannau

15 Peiriannau

Peiriannau sydd yn defnyddio rhan sylweddol o'n defnydd o drydan yn ein cartrefi erbyn hyn. Mae'n dod yn haws adnabod peiriannau sydd yn effeithlon o ran ynni yn y siopau oherwydd bod gan y rhan fwyaf erbyn hyn label sydd yn graddio pob offer o G i A ar gyfer y mwyaf ynni effeithiol (ac erbyn hyn A+ ac A++ ar gyfer rhewgelloedd ac oergelloedd) a gwybodaeth benodol yn berthnasol i'r math o beiriant. Dylech ddewis peiriant gyda gradd A lle bynnag mae hynny'n bosibl er mwyn gostwng eich biliau tanwydd a thorri allyriadau CO₂. Dylech hefyd chwilio am y label 'argymhellwyd i arbed ynni' sydd ar beiriannau sydd wedi'u profi i fod yn ynni effeithiol. .



Oergelloedd a rhewgelloedd – yn ogystal â phrynu'r model mwyaf effeithlon o ran ynni gallwch hefyd fforddio i ystyried y maint yr ydych ei eisïau. Peidiwch â phrynu model sydd yn fwy na'r hyn y mae ei angen gan y bydd yn defnyddio mwy o drydan na model llai. Wrth gynllunio eich cegin gnewch yn siŵr eich bod yn gosod eich oergell/rhewgell oddi wrth ffynnonellau gwres fel rheiddiaduron a phoptai.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY syml**



Peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi – yn ogystal â phrynu'r model mwyaf ynni effeithlon gallwch hefyd fforddio ystyried y defnydd o ddŵr. Dewiswch beiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi dillad sydd â defnydd isel o ddŵr – os ydych ar fesurydd dŵr gall hyn arbed arian ar eich biliau dŵr a chadw ein hadnoddau dŵr.

Cost: **Uchel** Sgil: **DIY syml**



Tegelli yw un o'r teclynau a ddefnyddir fwyaf yn y cartref. Chwiliwch am un gyda'r label 'Energy Saving Recommended'. Dewiswch un sydd â mesurydd ar yr ochr fel eich bod y gweld faint o ddŵr yr ydych yn ei ferwi. Cofiwch gynhesu faint o ddŵr y mae ei angen yn unig.

Cost: **Isel** Sgil: **DIY syml**



Addasu

16 Oeri ac awyru

Rydym yn debygol o weld cynnydd yn y nifer o ddyddiau poeth iawn yn ystod yr haf pan all eich cartref fynd yn anghyfforddus o boeth. Agorwch y ffenestri yn ystod y gyda'r nos a'r nos i helpu i gadw eich cartref yn oer ac wedi'i awyru, ond caewch nhw yn ystod y dydd i gadw'r gwres allan. Bydd gwella inswleiddiad yn eich helpu i gadw'n oerach yn yr haf. Hyd yn oed yn y gaeaf mae angen awyru eich cartref i gael gwared ar aer llaith o geginau ac ystafelloedd ymolchi. I gadw tymheredd a chylchrediad aer yn gyfforddus gallwch:



Gosod bleindiau adlewyrchol, cysgodlenni a chaeadau,

yn enwedig ar ffenestri to heb gysgod i ddarparu cysgod rhag yr haul.

Cost: Isel/canolig Sgil: DIY medrus



Newid addurniadau am ddeunyddiau sydd yn adlewyrchu

gwres a golau. Newid carpedi am loriau pren neu deiliau a pheintio waliau a waliau allanol gyda phaent lliw golau i adlewyrchu golau. Dylai bleindiau a llenni fod yn wyn neu'n adlewyrchol ar yr ochr allanol.

Cost: Canolig Sgil: DIY medrus



Gosod fentiau a ffaniau echdynnu. Mae fentiau yn rhad i'w gosod ac nid oes angen eu cynnal a'u cadw. Dylid ffitio ffaniau echdynnu watedd isel mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi gyda rheoliadau mesur lleithder (a fydd yn cynnal pan fydd yr aer yn llaith). Bydd awyryddion adfer gwres mwy soffistigedig yn helpu i wneud yn siŵr bod digon o aer yn eich ystafell ymolchi ac eto'n cynnal y gwres.

Cost: Isel/canolig Sgil: DIY medrus/person proffesiynol



Gosod awyru stac goddefol (PSV) i ddarparu mwy o reolaeth dros dymheredd a llif aer trwy'r tŷ. Mae peipiau yn dod ag awyr iach i mewn ac yn cael gwared ar awyr llaith heb ffaniau echdynnu swllyd. Mae PSV yn gymharol syml i'w osod ond mae'n fwy addas ar gyfer adnewyddiadau tŷ cyfan neu estyniadau.

Cost: Canolig Sgil: DIY medrus/person proffesiynol



Defnyddio planhigion a dŵr i oeri eich cartref a'ch gardd.

Gall coed a phlanhigion ddarparu cysgod yn yr ardd a gostwng y golau llachar trwy ffenestri. Mae planhigion tŷ, yn enwedig rhai deiliog yn helpu i ocsigenu ystafelloedd.

Cost: Isel/canolig Sgil: DIY syml

Diogelwch: Ni ddylid ffitio ffaniau echdynnu mewn ystafelloedd gyda pheiriannau gwresogi fflw agored ond dylid cael briciau aer neu fentiau ffenestri.

Addasu

17 Draeniad, arwynebau a thoeau gwyrdd

Bydd glaw trwm amlach yn rhoi pwysau ar eich draeniau a chynyddu'r perygl o lifogydd yn eich ardal. Helpwch i amddiffyn eich cartref eich hun a'ch cymuned ehangach rhag llifogydd trwy gynnal a chreu cyfleoedd i ddŵr ddraenio i'r tir a sicrhau galluedd da eich draeniau. Gallwch gymryd mesurau sylfaenol i:



Arafu draeniad dŵr i'r tir trwy ddefnyddio deunyddiau mandyllog neu strwythurau agored fel graean ar dramwyfeydd ac yn yr ardd. Cynyddwch y nifer o goed a phlanhigion i helpu i storio dŵr. Hefyd gwnewch yn siŵr bod unrhyw lwybrau draenio ar dramwyfeydd yn llifo oddi wrth eich tŷ.

Cost: Isel/canolig **Sgil:** DIY medrus



Gosod to gwyrdd i helpu i leihau'r dŵr glaw sydd yn rhedeg oddi ar eich to ac arafu treigl y dŵr i'r system ddraenio. To gwyrdd neu wedi'i blannu yw to sydd wedi'i orchuddio â glaswellt neu blanhigion sydd yn araf yn tyfu (gweler Mesur 19 hefyd ar Blannu) gan ddarparu gofod gwyrdd ychwanegol ar doeau fflat neu do ar oleddf.

Cost: Uchel **Sgil:** DIY medrus/person proffesiynol



Gwnewch eich draeniau yn ddigon mawr i ymdopi gyda chynnydd mewn glaw a llifogydd trwy sicrhau bod cwteri a draeniau yn ddigon mawr a'u bod bob amser yn rhydd rhag dail a sbwriel.

Cost: Isel/canolig **Sgil:** DIY syml/DIY medrus



Atal dŵr yn crynhoi trwy osod falfiau gwrth ôl-lif ar bibellau draeniau peiriannau golchi a pheiriannau golchi llestri, falfiau un ffordd neu falfiau cau ar systemau draenio a thoiled gwrth seiffon neu bledren chwyddadwy gyda phympiau integral mewn toiledau i ddargyfeirio dŵr wrth gefn.

Cost: Isel/canolig **Sgil:** DIY syml



Gwella gallu'r pridd i ddraenio dŵr gyda graean a deunydd organig.

Cost: Canolig **Sgil:** DIY syml

Diogelwch: Peidiwch â defnyddio eich toiledau, baddon, sinc na pheiriant golchi os yw falf gwrth ôl-lif yn cau gan y bydd eich eiddo yn cael ei ddatgysylltu oddi wrth y garthffos. Ni ddylid rhoi deunydd selio i lawr arllwysfeydd gwastraff i atal ôl-lif gan y gallai hyn flocio'r draen. Wrth osod caewyr pibellau a falfiau dylid dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr bob amser.

Addasu

18 Arbed dŵr

Mae arbed dŵr yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy leihau'r ynni a ddefnyddir wrth drin a throsglwyddo dŵr i'n cartrefi, tra'n gostwng ein biliau dŵr. Mae cynnydd posibl ar gyfer adegau o brinder dŵr o ganlyniad i newid hinsawdd, gan wneud mesurau arbed dŵr yn bwysicach fyth. Defnyddiwch lai o ddŵr wrth ymolchi, wrth olchi eich dillad, llestri a char a dyfrio planhigion yn yr ardd. Prynwch declynau dŵr effeithiol (gweler Mesur 15 ar Beiriannau). Gallwch hefyd:



Gosod dyfeisiadau dŵr effeithiol i leihau'r dŵr a ddefnyddir.

Gall pennau cawodydd mwy effeithiol a thoiledau tynnu dŵr isel neu ddeuol ddefnyddio un rhan o dair yn llai o ddŵr. Mae gosod tapiau llif isel yn eich ystafell ymolchi neu gegin yn rhad ac yn hawdd i'w wneud a gall arbed tua £10-£15 y flwyddyn ar eich bil dŵr.

Cost: Isel/canolog **Sgil:** DIY medrus



Cynaeafwch ddŵr glaw o'r toeau i dynnu dŵr mewn toiledau, dyfrio gerddi a bwydo peiriannau golchi. Prynwch gasgen ddŵr am gost isel gan rai cynghorau a chwmnïau dŵr. Mae systemau mwy cymhleth yn golygu gosod tanc storio a systemau uwch fioled (UV) i wella ansawdd dŵr.

Cost: Isel/uchel **Sgil:** DIY medrus/person proffesiynol



Ailddefnyddiwch ddŵr llwyd o'ch cawod, baddon a basn dŵr trwy ei gasglu mewn tanc a'i ddefnyddio i dynnu dŵr mewn toiled, dyfrio eich gardd ac ar gyfer peiriannau golchi. Gall systemau leihau eich defnydd o ddŵr a biliau ond gall fod yn gostus i'w osod a'i gynnal a'i gadw a defnyddio cemegion i atal twf bacteria.

Cost: Uchel **Sgil:** Person proffesiynol

Diogelwch: Ni ddylid gosod pennau cawodydd dŵr effeithiol ar gawodydd trydan gan y gallai hynny arwain at orgynhesu'r dŵr. Dylai trydanwr a phlymwr cymwys osod offer trydanol. Dylid bod yn ofalus wrth osod systemau ailgylchu dŵr llwyd a sicrhau nad oes unrhyw groesheintio yn y prif gyflenwad dŵr. Mae rhagor o arweiniad ar gael gan y Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr (WRAS): www.wras.co.uk

Addasu

19 Diogelu rhag llifogydd a stormydd

Y gost ar gyfartaledd o ddifrod i gartrefi sydd wedi dioddef llifogydd yw £30,000, ac mae tua 5 miliwn o bobl mewn 2 filiwn eiddo yn byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yng Nghymru a Lloegr. Edrychwch a ydych chi mewn perygl o ddioddef llifogydd trwy fynd i www.environment-agency.gov.uk/subjects/flood, cofrestrwch gyda chynllun rhybudd llifogydd yr Asiantaeth a chadwch bethau gwerthfawr a gwaith papur i fyny'r grisiau. Amddiffynwch eich cartref mewn un neu ddau gam: i ddechrau cymerwch fesurau i leihau'r difrod i'ch cartref ac yn ail, efallai y byddai'n werth selio eich cartref yn drylwyr i gadw'r dŵr allan.



Cam 1 Lleihau'r difrod

Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau allai gael eu difrodi gan ddŵr llifogydd neu eu diogelu fel defnyddio paent sydd yn gwrthsefyll dŵr ar gyfer rhannau isaf waliau mewnol, defnyddio bagiau sych i amddiffyn dodrefn, gosod bachau sy'n codi fel bod modd tynnu drysau, defnyddio ceginau dur neu blastig yn hyrach na rhai asglodfwrdd a rhoi teiliau feinyll, ceramig a rygiau yn lle carpedi.

Cost: Isel/uchel **Sgil:** DIY syml



Gosod systemau ac offer trydanol uwchben lefel llifogydd posibl, yn cynnwys codi pwyntiau trydanol gyda'r weirio uwchben, boeleri, mesuryddion ac anwyddau gwynion.

Cost: Canolig **Sgil:** Person proffesiynol



Gwario cyflwr eich to yn rheolaidd a galw ar döwr cymwys i wneud gwaith trwsio angenrheidiol i deiliau wedi'u difrodi neu ar goll. Cadwch bargodion bondo a thalcenni tŷ yn fyr, gwiriwch gyflwr trawstiau a defnyddiwch strapiau dur ar drawstiau mewn mannau agored.

Cost: Uchel **Sgil:** Person proffesiynol

Cam 2 Cadw'r dŵr allan

Gall cadw dŵr allan fod yn hynod o anodd ac mae angen gwneud gwaith trylwyr neu fel arall gall eich gweithrediadau waethygu'r sefyllfa yn hytrach na'i wella. Ymgynghorwch â pherson proffesiynol cyn gwneud y mesurau hyn:



Selio mannau lle mae dŵr yn dod i mewn gan ddefnyddio corcyn draenio ar gyfer draeniau, sinciau a thoiledau, rhoi pwysau ar orchuddion tyllau archwilio, gosod gorchuddion briciau aer a selio bylchau o gwmpas lle mae pibellau a cheblau yn dod i mewn, a gosod falfiau un ffordd ar y prif ddraeniau. Bydd gosod amddiffynfeydd datodadwy a chodi trothwy drysau yn atal dŵr rhag dod i mewn.



Cost: Isel/canolig Sgil: DIY medrus/person proffesiynol

Trwsio mortar sydd wedi'i ddifrodi ar waliau allanol ac ystyried mesurau drutach i selio'r waliau fel rhoi rendr sydd yn dal dŵr ar y waliau a gosod pilennau dal dŵr.

Cost: Uchel Sgil: DIY medrus/person proffesiynol

Diogelwch: Dylid gofyn am gyngor proffesiynol bob amser wrth gymryd mesurau i gadw dŵr allan o dŷ.

Nodwch: Os ydych yn gosod mesurau diogelu rhag llifogydd fel rhan o gostau adfer yn dilyn llifogydd, efallai y bydd eich cwmni yswiriant yn disgwyl i chi dalu cost ychwanegol am addasiadau. Ond dylai'r gost ychwanegol gael ei glirio gan hawliadau is a phremiwm is yn y dyfodol.



Addasu 20 Plannu

Bydd newid hinsawdd yn golygu tymheredd uwch a fydd yn gwaethygu oherwydd y potensial o gael llai o law yn yr haf a sychder. Gall dewis planhigion yn ofalus helpu i wneud ein cartrefi a'n hamgylchedd yn fwy cyfforddus a diogel trwy ddarparu cysgod. Mae tymhorau tyfu hirach, sychder yn yr haf a chynnydd yn y perygl o lifogydd yn golygu y gall dewisiadau plannu newid.



Dewiswch blanhigion, yn enwedig coed a fydd yn darparu cysgod y tu mewn a thu allan. Mae coed collddail yn darparu cysgod yn yr haf tra'n caniatáu golau trwy'r gaeaf. Gall coed a llwyni, wedi'u dewis a'u gosod yn dda, helpu i amddiffyn eich eiddo rhag stormydd.

Cost: Isel/canolig Sgil: DIY syml



Gosodwch gasgen ddŵr. Mae eich to yn casglu tua 85,000 litr o law bob blwyddyn allai lenwi 450 o gasgenni dŵr gyda dŵr am ddim ar gyfer dyfrio planhigion. Crewch system ddyfrio o'ch casgen ddŵr i ddyfrio yn gynnar neu yn hwyr yn y dydd.

Cost: Isel Sgil: DIY syml



Dewiswch rywogaethau sydd yn gallu dioddef sychder o goed, llwyni a gwrychoedd y mae arnynt angen llai o ddŵr. Mwynhewch dyfu ffrwythau fel gwinwydden bricyll a ffigys.

Cost: Isel Sgil: DIY syml



Crewch do gwyrdd i helpu i gadw eich tŷ yn oer yn yr haf, yn gynnes yn y gaeaf ac i leihau'r glaw sydd yn rhedeg oddi ar eich to. Gall toeau gwyrdd ddefnyddio glaswellt cyffredin neu rywogaethau gwreiddiau bas fel bywllys sydd yn gallu gwrthsefyll sychder. Gellir defnyddio ystod eang o rywogaethau eraill nad ydynt yn fywllys fel Meinddail, Festuca ovina, a rhywogaethau Hens and Chicks Jovibarba.

Cost: Uchel Sgil: Person proffesiynol

Diogelwch: Gwnewch byllau a dŵr yn ddiogel trwy eu gwirio yn rheolaidd gan arolygu plant ifanc yn yr ardd a defnyddio rhwyd neu rwyll i greu gorchudd diogel.

Gwastraff cartref ac adeiladu

Mae'r gwastraff a gynhyrchwn yn cyfrannu'n sylweddol at newid hinsawdd, trwy gynhyrchu methan a CO₂ sydd yn nwyon tŷ gwydr. Mae hyn yn digwydd oherwydd ymddatodiad deunydd pydradwy fel gwastraff cegin a gardd, a choed sydd yn aml yn cael ei daflu i ffwrdd yn ystod gwaith adeiladu. Mae cynnyrch plastig o danwydd ffosil, wrth iddo ymddatod yn rhyddhau carbon, yn ogystal â chludo, storio, trin a chael gwared ar wastraff, sydd i gyd yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr.

Lleihau eich gwastraff. Dylid dechrau lleihau'r allyriadau hyn bob amser trwy leihau faint o wastraff a gynhyrchir. Mae hyn yn golygu meddwl ddwywaith cyn prynu pethau, prynu yr hyn sydd ei angen yn unig a dewis nwyddau gyda llai o becynnu. Y dewisiadau nesaf yw aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

Aildddefnyddio deunyddiau adeiladu yn ystod gwaith adnewyddu lle bynnag mae hynny'n bosibl neu brynu deunyddiau sydd eisoes wedi'u defnyddio neu wedi'u hailgylchu. Mae plastigau wedi'u hailgylchu ar gyfer prosiectau adeiladu gerddi bellach ar y farchnad ac mae masnach brysur mewn deunyddiau wedi'u haildddefnyddio ac iardiau sgrap.

Ystyriwch yn ofalus sut yr ydych yn cael gwared ar ddeunyddiau adeiladu.

Mae marchnad ffyniannus ar gyfer deunyddiau wedi'u hail ddefnyddio ac efallai y bydd gan iardiau sgrap a chwmnïau adfer ddiddordeb mewn prynu deunyddiau. Gallwch gael gwared ar ddeunyddiau trwy gynlluniau fel Freecycle, ewch i :

www.freecycle.org. Os oes rhaid i chi daflu eitemau i ffwrdd, didolwch nhw yn y safle gwaredu gwastraff lleol yn hytrach na'u taflu i sgip. Cewch wybodaeth am eich safle gwaredu gwastraff lleol gan eich awdurdod lleol.

Gwahanwch eich gwastraff cegin a gardd a defnyddiwch fin compostio neu abwydfa yn eich gardd gan fod methan a gynhyrchir o dirlenwi gwastraff pydradwy yn gyfrifol am tua 2% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU.

Helpwch i wahanu eich gwastraff cartref arall, i hwyluso aildddefnyddio ac ailgylchu, trwy osod biniau ailgylchu yn y gegin ar gyfer papurau, caniau, poteli a phlastigau. Cysylltwch ag adran gwastraff eich awdurdod lleol i ddarganfod beth arall y gellir ei aildddefnyddio a'i ailgylchu yn lleol.

Diogelwch: Wrth gael gwared ar ddeunyddiau gwnewch hynny mewn safle gwaredu gwastraff sy'n cael ei redeg gan eich awdurdod lleol. Mae'n erbyn y gyfraith i wibdaflu sbwriel.

Ffynonellau o wybodaeth bellach

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Darparu cyngor diduedd ar arbed ynni a gostwng allyriadau carbon ar ei wefan yn: www.energysavingtrust.org.uk y gallwch lawrlwytho taflenni a gwybodaeth am nifer o'r mesurau a ddisgrifir yn y canllaw hwn.

Mae canolfan gynghori'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn darparu cyngor rhad ac am ddim a diduedd yn ogystal â darparu gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael yn eich ardal. **Ffôn 0800 512 012**

Arbed Ynni Cymru

Mae'r porth gwefan hon yn darparu cysylltiadau i gyrff sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus sydd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar ynni i gartrefi, sector cyhoeddus a busnesau. www.energysavingwales.org.uk

Clybiau Ynni'r Haul

Mae pum Clwb Ynni'r Haul yng Nghymru sydd yn darparu cefnogaeth i bobl sydd eisiau gosod systemau cynhesu dŵr poeth trwy ynni'r haul. I gael rhagor o wybodaeth

www.ecodyfi.org.uk/energy/dyfisolarclwb.htm

Canolfan Technoleg Amgen (CTA)

Mae gan CTA ym Machynlleth, Powys, arddangosfeydd graddfa lawn o'r holl dechnolegau a ddisgrifir yn y canllaw hwn a llawer mwy gyda siop lyfrau gyda stoc o gyhoeddiadau defnyddiol. Mae CTA hefyd yn cyhoeddi ei daflenni a llyfrynau gwybodaeth ei hun. www.cat.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd

Yr asiantaeth llywodraeth genedlaethol gyda chyfrifoldebau sydd yn cynnwys adnoddau dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Mae'n darparu gwybodaeth am beth i'w wneud pan fo prinder dŵr a sut i arbed dŵr:

www.environment-agency.gov.uk/subjects/water_res

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am risg dioddef llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd: www.environment-agency.gov.uk/subjects/flood

Ffoniwch y Llinell Llifogydd ar **0845 988 1188**

Y Gymdeithas Arddwriaethol Brydeinig

Mae wedi cynnal ymchwil helaeth i effeithiau newid hinsawdd ar ein gerddi ac mae cyngor ar gael i arddwyr: www.rhs.org.uk/research/climate_change

Ymwybyddiaeth Gwastraff Cymru

Yn darparu cyngor am reoli deunyddiau ac adnoddau yn fwy cynaliadwy a lleihau gwastraff. www.wasteawarenesswales.org.uk

Cyllido

Y ffordd hawsaf o gael gwybodaeth am gefnogaeth cyllido ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a defnydd graddfa fach o ynni adnewyddol yw trwy ffonio canolfan gynghori'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar **0800 512 012**. Gallant ddarparu gwybodaeth am yr holl ffynonellau cyllido sydd ar gael yn eich ardal gan gynnwys y rhai a restrir isod.

Awdurdodau lleol

Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau raglenni sydd yn cefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn tai lleol. [Cysylltwch â'ch cyngor am fanylion](#).

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru)

Mae'r cynllun hwn sydd wedi'i gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhoi cefnogaeth i bobl ar incwm isel sydd yn hawlio budd-daliadau neu sydd yn bensiynwyr i wella effeithlonrwydd ynni eu cartref. [Rhadffôn 0800 316 2815](#) neu ewch i: www.heeswales.co.uk

Cwmnïau Cyflenwi Trydan neu Nwy

Mae'n rhwymedigaeth statudol ar bob cyflenwr ynni i leihau allyriadau carbon trwy fuddsoddi mewn mesurau yng nghartrefi cwsmeriaid. Bydd angen i chi gysylltu â'ch cyflenwr ynni i ddarganfod y manylion am ba fath o gefnogaeth y maent yn ei gynnig. Gallai gynnwys cefnogaeth ar gyfer unrhyw un o'r mesurau sydd yn y canllaw hwn. [Dylai fod rhif ffôn cyngor effeithlonrwydd ynni ar eich bil trydan/nwy](#).

Rhaglen Adeiladau Carbon Isel

Gall cartrefi wneud cais am grantiau hyd at £2,500 fesul eiddo tuag at y gost o osod cynnyrch ardystiedig gan osodwr ardystiedig. Mae'r technolegau sydd yn gymwys ar gyfer cyllido yn cynnwys:

- Ffotofoltaig heulol
- Dŵr poeth trwy ynni'r haul
- Tyrbinau gwynt
- Pymptiau gwres ffynhonnell daear
- Trydan dŵr graddfa fach
- Stofiau a boeleri coed

www.lowcarbonbuildings.org.uk/how/householders

Cwmnïau dŵr

Mae'r holl gwmnïau dŵr yn annog eu cwsmeriaid i gadw dŵr ac maent yn darparu cynigion rhad ar gasgenni dŵr a dyfeisiadau arbed dŵr eraill.

[Mae taflenni ar gael gyda'ch biliau dŵr neu ffonwch rif gwasanaeth cwsmeriaid eich cwmni dŵr \(a fydd ar eich bil\) neu ewch i:](#)

www.water.org.uk/home/resources-and-links/links/water-operators

Rhestr eirfa

Arwyneb hydraidd Arwyneb sydd yn caniatáu i ddŵr basio trwyddo i'r tir e.e. graean rhydd.

Awyru mecanyddol Awyru sydd yn defnyddio ffan neu bwmp i gylchredeg aer (ac felly'n defnyddio ynni).

Awyru stac goddefol Dull heb fod yn fecanyddol o awyru sydd yn defnyddio effaith aer yn pasio dros dwll fflw i dynnu hen aer allan o adeilad.

Boeler Rhan o'r system gwres canolog gwlyb sydd yn darparu gofod gwresogi i reiddiaduron a dŵr poeth i dapiau.

Boeler Combi (neu Gyfuniad) Boeler sydd yn darparu gofod ar gyfer gwresogi a dŵr poeth ar unwaith ac felly nid oes angen silindr i storio dŵr poeth.

Boeler cyddwysedig Ffurf hynod o effeithiol o foeler (fel rheol 90% effeithiol o'i gymharu â 60% effeithiol ar gyfer boeler confensiynol) lle mae gwres ychwanegol yn cael ei ddal trwy gyddwysu nwyon fflw.

Bric aer Bric arbennig gyda thyllau ynddi fel bod aer yn gallu mynd trwyddi i ddarparu awyru. Fe'u defnyddir fel rheol mewn ystafelloedd gyda thanau nwy neu agored gan ddarparu awyru hanfodol i sicrhau llosgi effeithiol.

Bwlb twngsten Bwlb golau safonol hen ffasiwn sydd â filament wedi'i wneud o twngsten.

Cladin Arwyneb allanol ar waliau allanol y gellir ei wneud o blanciau o bren, plastig neu fetel. Mae'n bosibl inswleiddio o dan y cladin.

CO₂ Nwy carbon deuocsid a gynhyrchir pan fo tanwydd carbon yn cael ei losgi. Hwn yw'r nwy tŷ gwydr pwysicaf.

Collddail Coed neu brysgwydd sy'n colli eu dail yn yr hydref.

CORGI Cyngor Gosodwyr Nwy Cofrestredig – cynllun achrededig i osodwyr.

Dist Un o nifer o drawstiau cynnal a ddefnyddir mewn lloriau a nenfydau.

Dŵr glaw yn rhedeg i ffwrdd Dŵr glaw sydd yn syrthio ar arwynebau caled ac yn rhedeg i ffwrdd yn gyflym – mewn amodau eithafol mae'n gwneud llifogydd yn waeth.

Dŵr llwyd Dwr sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer ymolchi e.e. dwr baddon ond gellir ei ail ddefnyddio i dynnu dwr mewn toiled neu i ddyfrio gerddi fel rheol ar ôl triniaeth.

Falf annychwel Falf sydd yn gallu cael ei gosod mewn draeniau sydd yn gallu atal dŵr llifogydd rhag dod i fyny trwy'r draeniau.

Falf gwrth ôl-lif Falf arbennig i sicrhau na all dŵr ond llifo mewn un cyfeiriad trwy bibell wastraff o beiriant ac felly atal dŵr llifogydd rhag dod i fyny'r bibell.

Fent diferu Fent slot bychan yn ffrâm y ffenestr sydd yn rhoi awyru cyfyngedig heb orfod agor ffenestr.

Gwlân mwynau Deunydd inswleiddio wedi'i wneud o ddefnydd anorganig.

Gwydr eilaidd Lle mae paen ychwanegol o wydr neu blastig tryloyw yn cael ei ychwanegu at ffenestr gwydr sengl.

Inswleiddio (thermol) Unrhyw ddeunydd sydd yn arafu treigl gwres. Mae'r rhan fwyaf o ddeunyddiau inswleiddio thermal yn gweithio trwy ddal pocedi o aer llonydd.

Mesurydd lleithder Switsh awtomatig sydd yn sensitif i lefel lleithder yn yr aer. Bydd yn cynnwys pan fo'r aer yn cyrraedd lefel neilltuol o leithder ac yn diffodd pan fo'r lleithder yn gostwng.

Ocsigenedig Ocsigen cyflenwi – ocsigen yw'r nwy yr ydym ei angen i anadlu i gadw'n cyrff i weithio.

Polystyren Plastig pan fydd wedi'i lenwi ag aer yn ewyn gwyn solet yn cael ei ddefnyddio ar gyfer inswleiddio a phecynnu.

Polywrethan Plastig pan fydd wedi'i lenwi ag aer yn ewyn lliw oren solet yn cael ei ddefnyddio ar gyfer inswleiddio ac fel llenwad.

Rendr Gorchudd ar waliau a wneir fel rheol o dywod a sment ar arwynebau allanol neu blastr ar arwynebau mewnol.

Silindr dŵr poeth Tanc storio (y dylid ei inswleiddio) lle mae dŵr yn cael ei gynhesu a'i storio cyn ei ddefnyddio ar gyfer baddonau, cawodydd etc.

Toeau gwyrdd To gwyrdd wedi'i orchuddio â llysdyfiant a phridd dros bilen sydd yn dal dŵr i gadw adeiladau'n oer yn yr haf a chynnes yn y gaeaf ac i arafu'r dŵr sydd yn llifo oddi ar eich to.

Toiled gwrth seiffon Toiled arbennig sydd yn caniatáu i wastraff gael ei ryddhau ond yn atal dŵr llifogydd yn y garthffos rhag dod i fyny trwy bibell gwastraff y toiled.

Toiled tynnu dŵr deuol Toiled sydd yn gallu tynnu dŵr yn fyr neu yn hir fel bo'r galw i arbed dŵr.

Trawst Pob un o'r trawstiau ar oled sydd yn ffurfio fframwaith y to.

Uwch fioled Golau o donfedd neilltuol y gellir ei ddefnyddio i ladd bacteria mewn dŵr.

Wal ddwbl Adeiladwaith safonol i waliau ar dai modern yn cynnwys dwy haen o fric neu waith blociau gyda gofod rhyngddynt y gellir ei lenwi ag inswleiddiad.

Wal solet Ffurf hen ffasiwn o wal gyda chroen sengl o friciau neu gerrig.

Nodiadau